**Y FFORWM GWEITHWYR**

**10 Ebrill 2024**

Yn bresennol:

Cynrychiolwyr yr Aelodau:
Mrs S Hoss, Mrs J James, y Cynghorydd V Thomas, a'r Cynghorydd A Wilcox.

Cynrychiolwyr y staff:
J Arkley, C Broome, D Hughes, G Jones, T Jones, Tomos Jones, C Price, Chloe Price, D Roberts, E Rooney (Cynrychiolydd Unsain) a C Syme.

Cynrychiolwyr Undeb:
Jonathan Lewis (Unsain).

(Yr ystafell werdd, Parc Llanion ac ar-lein: 2.00pm – 2.45pm)

**1. Materion Personol**

Cyfeiriodd y Dirprwy Gadeirydd at farwolaeth y Cynghorydd R Owens yn ddiweddar ac at ei wasanaeth clodwiw i'r Awdurdod ac fel cyn Gadeirydd y Fforwm Gweithwyr. Cafwyd munud o dawelwch er cof amdano.

**2. Ethol Cadeirydd am y cyfarfod**

Cymerodd y Dirprwy Gadeirydd, C Price, y Gadair am y cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd B Price, y Cynghorydd C Williams, T Bean, K Gravel, G Higgins-Washbrook, R Hughes, G Lister, R Lovell a B Rees.

**3. Cyflwyniadau**

Roedd pawb oedd yn bresennol wedi cyflwyno eu hunain.

**4. Datgan Buddiannau**

Nodwyd bod gan bob Cynrychiolydd Staff fuddiant yn eitem 7, Cydnabyddiaeth Staff. Fodd bynnag gan nad oedd unrhyw benderfyniadau yn cael eu gwneud, roedd Swyddog Monitro yr Awdurdod wedi cadarnhau nad oedd angen gwneud datganiadau unigol o fuddiannau.

**5 Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Tachwedd 2023 i'w cadarnhau a'u llofnodi.
Dywedodd Mrs J James y cofnodwyd bod Dr R Plummer wedi cynnig

cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2023 er nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Tachwedd 2023. Dywedwyd bod y cofnodion mewn gwirionedd wedi'u cynnig gan y Cynghorydd R Owens a'u heilio gan y Cynghorydd A Wilcox, ac y byddai'r cofnodion yn cael eu diwygio i amlygu hynny.

Ar gynnig Mrs J James, a eiliwyd gan y Cynghorydd A Wilcox, **PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Tachwedd 2023 a'u llofnodi yn amodol ar y newid uchod.

**6. Log Gweithredu**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y wybodaeth ddiweddaraf am yr achrediad Cyflog Byw, a chadarnhaodd bod yr Awdurdod yn parhau'n benderfynol o gael yr achrediad. Fodd bynnag, roedd y newidiadau yn y ddeddfwriaeth caffael a'r cymhlethdodau ynghylch yr effaith bosibl ar gontractwyr, wedi arwain at oedi. Ychwanegwyd nad oedd contractwyr wedi'u hystyried yn flaenorol a bod gwaith ar y gweill i sefydlu proses fyddai o fudd i bob ochr. Eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd y canllawiau perthnasol yn rhoi digon o wybodaeth ac felly byddai ymchwil yn cael ei gynnal i ddeall yr arferion gorau cyn symud ymlaen.

Mewn ymateb i ymholiad gan yr Aelodau ynghylch amserlen y cam gweithredu hwn, cadarnhawyd bod disgwyl y bydd y newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth caffael wedi'u gwneud o fewn y 6 mis nesaf, ac felly y gobaith oedd gweld camau pellach yn cael eu cymryd i lwyddo i gael yr achrediad yn y cyfnod hwnnw.

**Nodwyd.**

**7. Cydnabyddiaeth Staff**

Croesawodd y Cadeirydd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl a gyflwynodd adroddiad ynghylch Cynllun Gwobrwyo Gwasanaeth Hir i'r Awdurdod. Dywedwyd bod y mater o wobrwyo gwasanaeth hir wedi'i godi mewn cyfarfod diweddar o'r Cynrychiolwyr Staff, a chytunwyd i gyflwyno'r mater i'r Fforwm Gweithwyr i'w drafod ymhellach.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu cynllun presennol yr Awdurdod o Wobrwyo Gwasanaeth Hir, yr ymchwil berthnasol, yr ystadegau staff (megis ffigurau trosiant), manylion y buddion eraill sydd ar gael i staff yr Awdurdod ac ystyriaethau eraill o risg.

O ystyried Deddf Cydraddoldeb 2010, dywedwyd bod gan fuddion staff y potensial o wahaniaethu yn anuniongyrchol ar sail oedran a rhyw. Mewn ymateb i hyn, eglurodd J Lewis ei fod wedi ceisio arweiniad cyfreithiol ar sefyllfa UNSAIN ar y mater hwn, a chadarnhaodd bod UNSAIN yn ystyried bod cydnabyddiaeth gwasanaeth hir yn gymhelliant cadarnhaol.

Fodd bynnag barnwyd y dylai mathau eraill o gydnabyddiaeth hefyd ddigwydd.

Cafwyd trafodaeth ehangach ynglŷn â chydnabyddiaeth yn gyffredinol a chytunwyd bod y polisi presennol yn cael ei ystyried yn hen ffasiwn yn sgîl y newid mewn diwylliant a demograffeg staff dros y blynyddoedd. Cytunwyd hefyd y dylid ceisio barn y staff er mwyn gallu deall a ddylid gwneud mwy i gydnabod cyflawniadau a gwaith caled y staff ar draws yr Awdurdod, ac os felly, ar ba ffurf y dylai hynny fod. Awgrymwyd y gallai arolwg staff fod yn ddull effeithiol o gasglu barn y staff, a chytunodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl i hyn.

Awgrymwyd syniadau megis defnyddio cylchlythyr y staff, pinnau enamel a 'Staff yr wythnos/mis' fel ffurfiau eraill o gydnabyddiaeth.

Manteisiodd J Lewis ar y cyfle i amlygu y dylai unrhyw dalebau a ddyfernir i staff ddod oddi wrth gyflenwyr lleol.

Dywedodd y Prif Weithredwr, gan nad oedd y Fforwm yn grŵp gwneud penderfyniadau, y byddai'r mater yn cael ei symud ymlaen ac y byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf.

**Nodwyd.**